Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.10 Dulliau o roi arian sy'n effeithiol o ran treth

Mae yna draddodiad hir o roi elusennol ymysg y cyhoedd yn y DU, ac mae'n parhau i fod yn eang; - amcangyfrifir mai'r cyfanswm a roddir gan oedolion y DU yn 2007/8 oedd £10.6 biliwn. Mewn mis nodweddiadol, cafwyd cyfraniadau gan 56% o'r cyhoedd - bron i 28 miliwn o bobl - ffigwr sy'n gyson gyda blynyddoedd blaenorol (NCVO / CAF). Fodd bynnag, nid yw'r cyfraniadau yma bob amser yn dreth-effeithiol - mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn amcangyfrif fod elusennau yn colli allan ar dros £700 miliwn o Rodd Cymorth bob blwyddyn.

Trafodir rhoi treth-effeithiol yn aml yn y DU fel petai'n brand unigol, ond mae yna sawl ffurf wahanol o roi treth-effeithiol sy'n gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft mae rhoddion cyflogres yn awtomatig yn dreth-effeithiol gyda budd treth i'r rhoddwr, yn gymaint â bod Cymorth Rhodd angen datganiad Cymorth Rhodd gan y rhoddwr, gyda'r dreth yn elwa'r elusen neu'r elusen a'r rhoddwr. Mae llawer rhoddwr ac elusen yn anymwybodol o'r cymhelliant treth hael sydd ar gael. Cafwyd adroddiad diweddar gan CAF (2009) fod yna le i wella ymwybyddiaeth a lleihau'r dryswch ynghylch beth yw gwir ystyr rhoi treth-effeithiol, yn enwedig ymysg pobl ifanc a'r rheiny yn y dosbarth cymdeithasol incwm is. Mae hi fyny i'r elusennau i addysgu'r rhoddwyr am ystod y dulliau rhoi treth-effeithiol sydd ar gael.

Daethpwyd o hyd hefyd yn adroddiad CAF i resymau cadarn i gredu unwaith y byddai rhoddwyr yn defnyddio'r dulliau treth-effeithiol yma, byddant yn ymrwymo i wneud hynny. Felly gall rhoi treth-effeithiol ddarparu ffynonellau incwm cynaliadwy pwysig.

Mae'r daflen wybodaeth yma yn gosod allan y prif nodweddion ynghylch dulliau rhoi treth-effeithiol ar gyfer rhoddion unigol.

Cymorth Rhodd

Yn nhermau ymwybyddiaeth a defnydd gan y cyhoedd Cymorth Rhodd yw'r dull mwyaf blaenllaw o roi sy'n dreth-effiethiol.

Mae Cymorth Rhodd yn gweithio drwy alluogi elusennau i gymryd rhodd (sef yr arian y mae'r rhoddwr eisoes wedi talu treth arno), ac yna adhawlio'r dreth ar y 'gros' sy'n cyfateb i'r rhodd (ei werth cyn y tynnwyd y dreth) ar y gyfradd sylfaenol. Bydd hyn yn 20 y cant o 6 Ebrill 2008.

Yn ymarferol, golyga hyn y gall yr elusen hawlio 25 ceiniog ychwanegol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am bob punt a roddir i elusen drwy ddefnyddio Cymorth Rhodd. Hefyd, bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn talu rhyddhad trosiannol o 3.2 ceiniog yn y bunt i'r elusen yn awtomatig rhwng 6 Ebrill 2008 a 5 Ebrill 2011; er mwyn

galluogi elusennau i addasu i'r gwymp yng nghyfradd sylfaenol treth (o 22 y cant i 20 y cant). Golyga hyn y bydd yr elusen yn parhau i gael 28.2 ceiniog am bob punt a roddir drwy Gymorth Rhodd.

Gall Cymorth Rhodd fod yn berthnasol i roddion unwaith ac-am-byth neu i gyfres o roddion rheolaidd. Ar ôl cofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i adennill y dreth, mae'r gwaith gweinyddol yn syml. Bydd rhoddwyr yn rhoi tystiolaeth i ddangos y byddent yn hoffi i'r elusen adennill y gostyngiad yn y dreth ar eu rhoddion a bydd yr elusen yn hawlio'r gostyngiad yn y dreth ar ran rhoddwyr sy'n talu treth incwm yn y DU. Gellir hawlio Cymorth Rhodd ar roddion a wnaed dros y chwe blynedd diwethaf (pedair blynedd o Ebrill 2010). Dychmygwch pa wahaniaeth bydd hyn yn ei wneud i'ch elusen. I ddarganfod y pum cam syml ynghylch Cymorth Rhodd, gweler taflen wybodaeth 7.10.4 Cyflwyniad i Gymorth Rhodd.

Rhoi drwy'r gyflogres

Mae hwn yn galluogi gweithwyr i roi i elusen drwy gyflogres eu cyflogwr cyn didynnu treth. Felly bydd cyfraniad o £10 yn costio £8 i'r talwr treth sylfaenol a £6 i'r talwr treth uwch.

Ceir rhoddion o tua £90 miliwn y flwyddyn drwy'r dull hwn yn y DU, ac mae'r sector yn elwa'n fawr o'r ffynhonnell incwm hon sy'n rheolaidd, yn ddibynadwy ac yn ddiamod. Mae'n hawdd ei drefnu a bydd y rhoddion yn aml yn parhau am flynyddoedd lawer neu hyd nes bydd cyflogaeth yr unigolyn yn dod i ben.

Mae ymrwymiad i roi o'r math hwn yn cynnig anogaeth wirioneddol i roddwyr gan y byddant yn cael gostyngiad yn y dreth ar unwaith ar eu rhoddion misol.

Mae codi arian drwy'r gyflogres yn galw am greu cysylltiadau â chyflogwyr lleol er mwyn hyrwyddo'r achos da ymysg eu gweithwyr. Bydd y dull hwn o godi arian yn arwain yn aml at sicrhau cefnogwyr newydd a llawer o fanteision anuniongyrchol eraill.

Am wybodaeth bellach, gweler taflen wybodaeth 7.10.1 Cyflwyniad i roi arian trwy'r gyflogres

Cymynrodd

Cymynrodd yn ewyllys y rhoddwr yw un o'r dulliau mwy traddodiadol o roi i elusen ac mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm bwysig iawn. Mae llawer o elusennau a mudiadau crefyddol yn ddibynnol arnynt.

Nid yw rhoddion elusennol o fewn ewyllys yn rhan o dreth etifeddu. Mae gan godi arian cymynrodd botensial enfawr. Mae sawl person yn marw heb wneud ewyllys, felly man cychwyn da yw annog pobl i ysgrifennu ewyllys ac ystyried rhoi at elusen.

Gallwch weithio gyda chyfreithwyr lleol i hyrwyddo gwneud ewyllys. Sicrhewch fod eich cefnogwyr yn gwybod eich bod yn croesawu cymynrodd a dangoswch sut y buoch yn defnyddio cymynrodd yn y gorffennol, a'r gwahaniaeth a wnaed ganddynt.

Rhoi Cyfranddaliadau

Maint y rhoddion o gyfranddaliadau ar gyfartaledd yw £7,000 ac mae mwy na 11 miliwn o bobl yn y DU yn berchen ar wahanol niferoedd o gyfranddaliadau. Mae'n amlwg ei bod yn werth ystyried codi arian drwy dderbyn rhoddion o gyfranddaliadau.

Y brif anogaeth i roi cyfranddaliadau yw y gall gostio'n llai i roddwyr roi cyfranddaliadau nag y mae iddynt roi arian. Gall y rhoddwr gael gostyngiad yn y Dreth Incwm hefyd ar werth y cyfranddaliadau ac eithriad o Dreth Enillion Cyfalaf. Gall hwn fod yn rhyddhad treth sylweddol.

Rhoi drwy'r ffurflen hunan asesiad

Os yw rhoddwr yn llenwi ffurflen treth hunan asesiad, gall roi unrhyw ran o adhawliad treth i elusen. Rhaid i elusennau gael côd unigryw gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi er mwyn eu galluogi i dderbyn y fath roddion. Sicrhewch fod eich rhoddwyr yn gwybod y côd os ydynt eisiau rhoi yn y dull yma.

Gwybodaeth bellach

Cymru'n Rhoi
Llinell gymorth 0800 2888 329
givingwales@wcva.org.uk
Cynllun rhoi drwy'r gyflogres
www.charitablegiving.co.uk

Institute of Fundraising
Tax-effective giving Helpline
0845 458 4586
taxback@institute-of-fundraising.org.uk
www.tax-effectivegiving.org.uk

HMRC Charities
Helpline 0845 302 0203
charities@hmrc.gov.uk
www.hmrc.gov.uk

Cyfeiriadau

NCVO / CAF (2008)
Trosolwg o roi elusennol yn y DU yn 2007/8, NCVA / CAF

CAF (2009) The public bond with tax-effective giving in the UK
Arolwg o ymwybyddiaeth gyhoeddus a defnydd dulliau rhoi treth-effeithiol

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/11/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk